**LC335**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol tir amaethyddol yng Nghymru ac yn nodi'r swm a fernir yn incwm blynyddol net gan bob uned o'r fath ar gyfer y flwyddyn 12 Medi 1999 hyd 11 Medi 2000 yn gynhwysol. Rhagnodir yr wybodaeth hon at ddibenion darpariaethau olynu yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) 1998 mewn perthynas â Chymru.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Ceir atalnod llawn diangen ar ôl "hyd" ym mharagraff cyntaf y testun Cymraeg.

**Gwneud a dod i rym**

Er bod y gorchymyn wedi'i wneud o dan y weithdrefn weithredol, nid yw'r dyddiad gwneud na'r dyddiad dod i rym wedi'u cwblhau yn y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**Y rhaglith**

Fel yr esbonnir yn *Statutory Instrument Practice*, dylai troednodyn (b) nodi'r ffaith bod "Minister" wedi'i ddiffinio yn adran 96(1) fel yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru.

**Erthygl 1(4) – "Rheoliad 805/68 y Cyngor"**

Mae'r gair "gynnwys" wedi'i gamsillafu yn nhroednodyn (c).

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Hydref 2001